Priya Dogra
Prif Weithredwr
Corfforaeth Channel Four
124 Heol Horseferry
Llundain
SW1P 2TX

Y Fonesig Melanie Dawes
Prif Weithredwr
Ofcom
2A Riverside House
Heol Pont Southwark
SE1 9HA

7 Gorffennaf 2026

## Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau 2025 Corfforaeth Channel Four

Annwyl Priya,

Rwy'n ysgrifennu i rannu adolygiad Ofcom o Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau 2025 Corfforaeth Channel Four Television ('C4C') (y 'SMCP'). Diolch i'ch tîm am eu hymgysylltiad adeiladol ar y gwaith hwn.

Gan mai dyma'r tro cyntaf i chi dderbyn yr asesiad hwn fel Prif Weithredwr, roeddwn i eisiau amlinellu'n fyr ein barn gyffredinol. Er bod y cyfnod a gwmpesir cyn eich cyfnod yn y swydd, mae ein dadansoddiad o Adroddiad Blynyddol 2025 a SMCP C4C, a'n data ein hunain, yn dangos bod C4C yn parhau i ddarparu gwerth cyhoeddus pwysig: darparu newyddion dibynadwy, cynnal llais golygyddol unigryw, cefnogi'r economi greadigol, a gwasanaethu cynulleidfaoedd iau lle maen nhw'n dewis gwylio. Mae Ofcom yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniad hwnnw.

Mae ein canfyddiadau hefyd yn dangos bod y sefydliad wedi parhau i wneud cynnydd yn erbyn ei nodau *Fast Forward* i drawsnewid Channel 4 yn ffrydiwr gwasanaeth cyhoeddus digidol yn gyntaf, er gwaethaf pwysau strategol ac ariannol sylweddol. Fodd bynnag, ni ddylai'r enillion hyn guddio maint yr heriau sydd o'n blaenau.

Ochr yn ochr â hyn, rydym yn parhau i fod yn bryderus am yr honiadau brawychus a godwyd mewn cysylltiad â'r sioe realiti *Married at First Sight UK.* Codwyd cwestiynau difrifol ynghylch lles cyfranwyr a chyfrifoldeb golygyddol, sy'n mynd at wraidd ymddiriedaeth y gynulleidfa. Rydym yn disgwyl i C4C gwblhau'r adolygiadau allanol rydych chi wedi'u comisiynu mewn ymateb a gweithredu ar unrhyw ganfyddiadau ar unwaith. Byddwn yn archwilio canfyddiadau'r adolygiadau hyn yn ofalus, ochr yn ochr ag unrhyw gamau a gymerwyd gan C4C mewn ymateb, a'r holl dystiolaeth arall a ddarparwyd i ni, i benderfynu a oes angen camau rheoleiddio pellach. Rydym wedi ymrwymo i gynnal adolygiad amserol o'n rheolau a'n canllawiau ein hunain ac ni fyddwn yn oedi cyn cryfhau'r rhain os bydd angen.

Mae eich penodiad yn dod ar adeg bwysig i'r sefydliad. A chithau eisoes wedi cychwyn adolygiad ehangach o fusnes a strategaeth C4C, dyma gyfle amserol i fyfyrio ar y flwyddyn ddiwethaf wrth i chi bennu llwybr clir ar gyfer sicrhau cynaliadwyedd hirdymor Channel 4 a'i allu i barhau i gyflawni ei gylch gwaith yn llwyddiannus a darparu gwerth cyhoeddus ehangach.

Yn erbyn y cefndir hwnnw, mae ein hasesiad o berfformiad C4C dros y flwyddyn ddiwethaf yn darparu sylfaen dystiolaeth ddefnyddiol.

I gefnogi hyn, rydym wedi datblygu ymhellach ein dull o adrodd eleni i roi dealltwriaeth well i gynulleidfaoedd a'r sector ehangach o berfformiad C4C ac ar ba sail y mae Ofcom yn ei ddal i gyfrif. Rydym hefyd yn ystyried sut y dylai ein dull monitro esblygu o ystyried y dyletswyddau a'r gofynion

adrodd newydd ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol sy'n deillio o'r Ddeddf y Cyfryngau. Byddwn yn rhannu ein cynlluniau gyda chi a'r tîm unwaith y bydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau.

## Mae C4C wedi gwneud rhywfaint o gynnydd ar arallgyfeirio refeniw, ond mae angen llwybr cliriach at gynaliadwyedd hirdymor o hyd.

Mewn blwyddyn pan oedd y sector yn parhau o dan straen sylweddol, cynhaliodd C4C refeniw o tua £1 biliwn. Tyfodd hysbysebu digidol yn gyson i £346m, gan gyfrif am 34% o gyfanswm y refeniw a rhagori ar darged C4C ei hun ar gyfer 2025. Cynyddodd refeniw nad yw’n dod o hysbysebu hefyd £10m flwyddyn ar ôl blwyddyn i £105m wrth i C4C barhau i arallgyfeirio ei sylfaen refeniw trwy symud i ffwrdd o refeniw hysbysebu llinol. Galluogodd hyn Channel 4 i gynnal ei fuddsoddiad cyffredinol mewn cynnwys yn fras a pharhau i gyflawni ar draws ystod o feysydd ei gylch gwaith.

Mae'r twf parhaus mewn refeniw hysbysebu digidol a'r cyfraniad cynnar o weithgarwch buddsoddi ehangach C4C, gan gynnwys caffael y cwmni *Firecrest Films,* yn ddatblygiadau cadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r darlun cyffredinol yn awgrymu, yng nghyd-destun marchnad hysbysebu anwadal, y gallai fod gan C4C lai o hyblygrwydd i ymateb i bwysau pellach. Mae'r sefydliad yn parhau i fod yn ddibynnol iawn ar hysbysebu (tua 90% o refeniw yn 2025); roedd refeniw yn wastad am y drydedd flwyddyn yn olynol; cofnododd y sefydliad ddiffyg gweithredol o £9m a gorffennodd y flwyddyn gyda chronfeydd arian parod net sylweddol is o £49m. Er bod adnewyddu’r cyfleuster credyd wedi cynnig rhywfaint o sicrwydd, mae'r busnes craidd yn parhau i fod yn sensitif yn strwythurol i ddirywiadau cylchol, gan danlinellu pwysigrwydd adeiladu sylfaen ariannol fwy gwydn. Bydd lleihau'r bregusrwydd hwnnw, wrth gadw'r rhinweddau sy'n gwneud Channel 4 yn unigryw ac yn werthfawr o ran gwasanaeth cyhoeddus, yn hanfodol.

Yn y cyd-destun hwnnw ac o ystyried y pwysau hwn, mae eich adolygiad strategol presennol yn rhoi cyfle pwysig i nodi cynllun cliriach a mwy tryloyw ar gyfer sut y bydd arallgyfeirio, effeithlonrwydd gweithredol a blaenoriaethau buddsoddi yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor, gan gynnwys cerrig milltir a mesurau llwyddiant mwy penodol.

## Parhaodd perfformiad creadigol a chynnydd ar y strategaeth cynnwys ddigidol yn gyntaf i fod yn gryfder clir i Channel 4.

Cyflawnodd comisiynau lwyddiannau nodedig yn 2025, gyda theitlau newydd gan gynnwys *Patience, In Flight, Operation Dark Phone: Murder by Text a Virgin Island,* yn ogystal â chyfresi cryf sy'n dychwelyd*, fel 24 Hours In Police Custody, Taskmaster* a *Grand Designs* ynghyd â *The Great British Bake Off* a *Gogglebox.* Parhaodd gwylio ffrydio i dyfu gydag ehangu pellach ar draws platfformau digidol a chymdeithasol ac roedd rhai arwyddion cadarnhaol o ymgysylltiad ymhlith cynulleidfaoedd iau. Fodd bynnag, yn gyffredin â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, mae gwylio a chyrhaeddiad cyffredinol yn parhau i ostwng, ac mae'r pwysau sy’n gysylltiedig â chynulleidfaoedd rhanedig yn parhau’n ddifrifol. Gan ystyried y ffactorau hyn, bydd eglurder strategaeth cynnwys a dosbarthu C4C yn y dyfodol yn hanfodol; yn benodol nodi sut y bydd Channel 4 yn cynnal unigrywiaeth, yn trosi twf digidol yn berthnasoedd parhaol â chynulleidfaoedd ac yn mesur llwyddiant yn gyson ac yn dryloyw ar draws platfformau.

## Parhaodd C4C i ddarparu gwerth cyhoeddus cryf mewn meysydd allweddol o'i ddyletswyddau a’i gylch gwaith cynnwys.

Parhaodd newyddion a materion cyfoes i fod yn gryfder clir, gyda Channel 4 yn cynnal ei gynulleidfa newyddion ac yn cynyddu amser gwylio ar draws llinol a ffrydio, gan fynd yn groes i dueddiadau ehangach y diwydiant. Adlewyrchwyd hyn mewn cydnabyddiaeth barhaus gan y diwydiant: gyda

chwe gwobr newyddiaduraeth gan gynnwys gwobr Rhaglen Newyddion y Flwyddyn RTS am y drydedd flwyddyn yn olynol; a chamooliaeth i *Gaza: Doctors Under Attack* gan BAFTA, Gwobrau Rhyddid y Cyfryngau, Gwobrau Newyddiaduraeth Prydain, Gwobrau Rory Peck. Rydym hefyd yn cydnabod yr ymdrechion parhaus i gyrraedd cynulleidfaoedd ifanc trwy fformatau newyddion a materion cyfoes mwy arbrofol ar draws platfformau.

Yn fwy cyffredinol, mae cyflwyniad C4C yn parhau i fod wedi'i wreiddio yn y rhinweddau sy'n parhau i ddiffinio ei werth cyhoeddus a'i unigrywiaeth, gan adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, gwthio ffiniau, a chynnig ystod o safbwyntiau ar draws darlledu a ffrydio. Mae Film4 yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth gefnogi ffilmiau Prydeinig annibynnol beiddgar. Mae ein hymchwil, ynghyd ag ymchwil C4C ei hun, yn dangos bod y nodweddion hyn yn parhau i fod yn gysylltiedig yn agos â brand Channel 4.

## Bu rhai datblygiadau cadarnhaol ym muddsoddiad C4C yn y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau, er y bydd buddsoddiad, ffocws ac ymgysylltiad parhaus â'r sector cynhyrchu yn bwysig.

Gostyngodd gwariant cynhyrchu rhanbarthol cyffredinol 7% (£15.5m) yn 2025. Er bod rhywfaint o ail-gydbwyso'r gyllideb ar draws y gwledydd, gyda chynnydd mewn gwariant yng Ngogledd Iwerddon a Chymru, gwrthbwyswyd hyn gan ostyngiadau mwy yn Lloegr a'r Alban, gan danlinellu'r cyfaddawdau anodd sy'n gysylltiedig â chefnogi cynhyrchu ledled y DU yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

Rydym yn cydnabod effaith barhaus rhaglen 4Skills estynedig C4C ledled y DU a'i hintegreiddiad cryf o fewn strategaeth *4 All the UK*, yn ogystal â gwell tryloywder ar weithgarwch comisiynu yn y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau ac ymgysylltiad ehangach â chyflenwyr y tu allan i Lundain. Mae'r rhain yn ddangosyddion pwysig o gyfraniad C4C at y sector cynhyrchu ehangach. Fodd bynnag, mae ein hymgysylltiad â chynhyrchwyr annibynnol yn parhau i amlygu’r pwysau ehangach ar draws yr economi greadigol, gan bwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu clir a chyson â'r sector.


Wrth edrych ymlaen, bydd mwy o eglurder ynghylch sut y bydd gweithgaredd comisiynu a sgiliau yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor y sector cynhyrchu, ochr yn ochr â gwerthusiad pellach o effaith mentrau 4Skills, yn werthfawr.

Wrth i C4C gamu mewn i'w gam nesaf o dan eich arweinyddiaeth, rwy'n hyderus bod yr asesiad hwn yn darparu sylfaen ddefnyddiol ar gyfer eich adolygiad strategol, yn enwedig wrth ystyried sut y gall y sefydliad barhau i gydbwyso gwytnwch masnachol â chyflawniad cryf o’i gylch gwaith. Mae Channel 4 yn parhau i fod yn sefydliad pwysig iawn o fewn system ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus y DU a bydd y penderfyniadau a wneir yn y cam nesaf hwn yn ganolog i'w gryfder a'i unigrywiaeth.

Edrychaf ymlaen at barhau i ymgysylltu â chi ar y materion hyn dros y flwyddyn nesaf.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn a'r ddolen i'n hymateb manwl i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Chadeiryddion Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a Phwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi dros Gyfathrebu a Digidol. Byddwn yn cyhoeddi'r ddwy ddogfen ar wefan Ofcom.

Yn gywir



Y Fonesig Melanie Dawes

Prif Weithredwr